"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1876. [RHIF 37.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Iesu Grist yn Undodwr	1
Llenyddiaeth yr Undodiaid yn Nghymru	7
Eglwysi a Chapeli	9
Ychydig o Ofyniadau Ychwanegol i Drindodiaid	12
Taith drwy Ewrop ac Asia	14
Marwolaeth un o Wroniaid Waterloo	19
Gohebiaeth—Yr Ysgol Sul	21
Hanes	22
Priodas	22
Marwgofion	22
Barddoniaeth	24

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1876. [RHIF. 37.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

IESU GRIST YN UNDODWR.

DARLITH GAN Y PARCH. JOHN PAGE HOPPS, GLASGOW.

MAE hyspysiad cyhoeddus y pwnc yma—*Iesu Grist yn Undodwr*—wedi peri i lawer o bobl feddwl;—mae wedi cyffroi rhai, mae wedi tramgwyddo ychydig, ac mae hyd y nod wedi cymhell un i ofyn am fy erlyniad ger bron y llysoedd gwladol. Nid wyf yn rhyfeddu at hyny, gan fod deilliad goruwchnaturiol yr Iesu yn cael ei gymmeryd gymmaint yn ganiataol, a'i Dduwdod yn cael ei dderbyn mor gyffredinol fel mater o ffaith. Ychwanegwch at hyn, yr arferiad hanner diog, ac hanner anwybodus o ddesgrifio Undodiaid fel rhai yn *gwadu yr Iesu*, ac mae yn hawdd i ddeall fod pobl yn synu pan y clywant fod yr Iesu yn cael ei hawlio fel yn Undodwr ei hunan. Yr wyf yn addef mai hyn sydd wedi fy arwain i siarad ar y pwnc hwn. O'm rhan fy hun, byddai yn well genyf gadw enw yr Iesu yn mhell oddiwrth ein gwahaniaethau, fel arwydd o rywbeth rhy ddynol, rhy dderchafedig, rhy brydferth i gael ei gyssylltu â chyfundrefnau eglwysig a duwinyddol diweddar. Ond a chymmeryd y byd fel ag y mae, yr wyf yn meddwl ei bod yn angenrheidiol yn ngwyneb agwedd fusgrell ac anwybodus yr oes i geisio dangos, ïe, i hawlio, fod yr Iesu ei hunan yn dal y ffydd yr hon a ystyrir yn awr yn heresi i'w mabwysiadu.

Undodwr yw yr hwn sydd yn credu mewn un Duw, Tad pawb, ac mewn iachawdwriaeth trwy gymmeriad, ac nid trwy gredo. Gan fod Undodiaid yn gweithredu ar yr egwyddor ei bod yn iawn i bob dyn, yn gystal ag yn ddyledswydd arno, i feddwl drosto ei hun, maent yn cydnabod yn siriol y ffaith nad ydynt yn cytuno ar bob pwnc; ond ar y ddau bwnc mawr o Undod Duw a ffordd iachawdwriaeth, maent i gyd yn hanfodol yr un. Er hyny, gyda golwg ar amcan y ddarlith

hon, cyfyngaf fy sylwadau i'r hyn a gynnwysir yn unig yn yr enw Undodaidd. Gan hyny mae'r gosodiad fod Iesu Grist yn Undodwr, yn yr ymofyniad yma, yn gyfystyr â'r gosodiad ei fod yn credu yn yr unig wir Dduw, yr hwn a addolai, a wasanaethai, ac a garai; a bod ei Dduw ef yn Dduw i niuau. Yr wyf fi yn credu mai Undodwr oedd e', mewn ystyr mwy cynnwysfawr, yn neillduol fel un a ddysgodd y gwirionedd mawr mai gwneuthur ewyllys Duw sydd yn achub yr enaid, ac mai purdeb calon sydd yn galluogi yr yspryd i "weled Duw;" ond yr wyf yn bwriadu yn awr i gymmeryd y cam cyntaf yn unig, ac i sefydlu y gwirionedd mawr canolog o ymddibyniaeth yr Iesu ar yr Hollalluog, fel ei Dad ac fel ei Dduw.

Gall rhywun ofyn—Pa eisiau sydd i ddweyd y pethau yma wrth bobl o gwbl? Paham y llafuriwch i ddinystrio yr athrawiaeth o Dduwdod Crist? Pa ddaioni ymarferol all ddyfod o hyny? Yr wyf yn ateb—Yn y lle cyntaf, mae yn beth da iawn bob amser i wybod y gwirionedd; ond yn yr ail le, nid ydyw mewn un modd yn angenrheidiol, wrth gychwyn ymofyniad i ryw gwestiwn, ein bod yn rhwymedig i ddyfod i gasgliad penderfynol. Er hyny, yn yr achos presenol, mae'r casgliad yn amlwg, gan ein bod yn gweled fod llawer yn ymddibynu ar syniadau clir a chywir. Os nad yw yr Iesu yn Dduw, mae yn beth da i wybod hyny, fel y caffom ein gwaredu oddiwrth eilunaddoliaeth, a chael ein meddyliau wedi eu troi yn unig at wir Arglwydd y gydwybod, a phriodol wrthddrych addoliad. Ond, yn mhellach nâ hyny, mae sefydliad y gwirionedd o ddynoliaeth syml, digymmysg yr Iesu o bwysigrwydd dirfawr, oblegyd mae yn ei adferu i'r hiliogaeth; mae yn cymmeryd ymaith o'i fywyd y wedd ansylweddol a ddygir i mewn gan athrawiaeth ei Dduwdod; mae yn gosod yr Iesu allan fel ein gwir frawd, yr hwn fel dyn sydd yn dadblygu gobeithion, dyledswyddau, a chymhwysderau anfeidrol dyn. Galwch ef yn *Dduw* neu yn *Dduw-ddyn*, ac nid yw efe mwyach yn perthyn i hanes dynoliaeth; nid yw ei esampl yn wir esampl; nid yw ei ymdrechion yn ymdrechion sylweddol; nid yw ei ddadguddiad ymddangosiadol o hono ei hun ac o bawb fel meibion i Dduw yn dal perthynas â bywyd ac angenion dyn; ond galwch ef yn *ddyn*, ac mae e' ar unwaith yn dyfod yn eiddo i ni, tra mae pob ffaith yn ei fywyd yn dadguddio rhyw wirionedd newydd a gogoneddus am ein bywydau ninau.

Nid yw athrawiaeth y Drindod yn ysgrythyrol, ond mae yn athrawiaeth eglwysig hollol. Yn sicr nis gellir ei olrhain yn ol i addysgiadau yr Iesu; a dim ond trwy dynu casgliadau ar raddfa helaeth mae'n bossibl i'w gwasgu allan o ysgrifeniadau yr apostolion. Er mwyn cael gafael ynddi, mae yn rhaid i ni fyned at awdurdodau a chredoau, ac uwchlaw'r cwbl, at draddodiad, at lais yr Eglwys, ar yr hwn mae'n gymmaint o arferiad i ymddiried yn yr oes hon. Mae athrawiaeth Duwdod Crist, yn yr un modd, yn un eglwysig, ac mae'n ymddibynu am ei chadernid ar benderfyniadau cynghorau a synodau, ar ordeiniadau yr Eglwys, neu ddarganfyddiadau diweddarach yr ymwybodolrwydd Cristionogol; oblegyd yr oedd yr Iesu yn dysgu yn gysson ei ddyndod ei hun, ac yr oedd yn byw fel un a addolai Dduw yn y nef-

oedd, yn yr hwn yr ymddiriedai, a'r hwn a ufuddhâai fel ei Dduw ar y ddaear.

Mae hyd y nod beirniad mor graffus a chrediniwr mor iawnffyddol â Mr. Gladstone wedi addef, mai gydag anhawsder mawr, os o gwbl, y ceir yr athrawiaeth o Dduwdod yr Iesu yn yr Efengylau. Wrth ysgrifenu, ryw amser yn ol, ar y llyfr enwog hwnw, *Ecce Homo*, dywedai yn agored fod y tair Efengyl gyntaf "yn hynod am yr absenoldeb cyffredinol o gyfeiriad uniongyrchol at ei Dduwdod," ac etto mai y rhai hyn yw yr Efengylau "sydd yn dangos i ni rediad cyffredinol a beunyddiol bywyd ein Iachawdwr, a gwir ddarlun ei ymddangosiad o flaen y byd." Felly yn ol Mr. Gladstone yr oedd "rhediad cyffredin" bywyd Crist, a "gwir ddarlun" y bywyd hwnw, fel y dangoswyd ef gan Grist, gan mwyaf, os nid yn hollol, yn Undodaidd. Wedi'n, wrth fyned yn mlaen at y bedwaredd Efengyl, nid oedd yn cael ond yn unig yr "hedyn," a gafodd aros yn hir cyn iddo flaendarddu a thyfu i fod yn athrawiaeth Duwdod Crist. Felly, yn ol y meddyliwr mawr yma, nid oes genym yn yr Efengylau (a dweyd yr eithaf) ond *hedyn* yr athrawiaeth o Dduwdod yr Iesu, yr hwn, mae'n ymddangos, naill ai nid oedd yn gwybod ei fod yn Dduw, neu a feddyliai ei bod yn iawn i guddio y gwirionedd rhyfeddol hwn oddiwrth ei ddysgyblion ei hun. Wrth wneuthur nodiadau y pryd hwnw ar osodiadau Mr. Gladstone, darfu i mi wneyd un sylw ag sydd yn ymddangos yn gymhwys ac yn ddefnyddiol yn awr. Gofynais, "Pa beth ddaw o gymmeriad prydferth, syml, didwyll yr hwn mae hyd y nod hereticiaid yn edmygu am ei ymdrechion i ddweyd holl wirionedd Duw wrth y dynion y daeth nid i'w dyrysu a'u camarwain, ond i'w ceisio ac i'w hachub?"

Byddai Mr. Gladstone yn debyg yn foddlon i gyfaddef ei fod yn cymmeryd Duwdod Crist *yn ganiataol;* o leiaf, nid yw yn gosod dim yn gadarnhaol o'n blaen i gyfiawnhau yr haeriad yma a wneir mor aml mai Crist mewn gwirionedd oedd y Duw Hollalluog. Mae e' yn dweyd, ac yn ail-ddweyd, nad oedd y fath ymadroddion yn yr Efengylau cyntaf ag sydd yn dal rhyw gyssylltiad â'r athrawiaeth, yn ffurfio un rhan o'i weinidogaeth gyhoeddus, ac nid yw yn rhoi ond awgrymiadau, a llai nag awgrymiadau, pan yr ydym yn edrych am sylfeini y dybiaeth ryfeddol yma. Yn sicr mae'n beth peryglus i ganiatau fod Crist yn ei addysg gyhoeddus yn celu ei wir gymmeriad, neu yn cuddio rhywbeth oddiwrth y bobl ag oedd yn hanfodol er ei ddeall yn iawn; ond mae'n beth llawer mwy peryglus i ddweyd pethau am dano sydd yn awgrymu twyll ar ei ran, o leiaf absenoldeb y symlrwydd, y gonestrwydd, yr eglurdeb, a'r didwylledd a ddylent nodweddu athraw wedi ei anfon gan Dduw. Ond fe *fyddai* hyn i gyd yn wir am dano,—ei fod yn gwisgo gorchudd ger bron y byd, ei fod yn rheolaidd ac yn barhaus yn cuddio rhywbeth oddiwrth y bobl ag oedd yn hanfodol er deall ei berson, ei addysg, a'i hawliau, ei fod yn arwain y bobl i gredu y peth nad oedd,—os oedd yn wir ei fod yn Dduw, a'i fod yn gwybod hyny; oblegyd o'r dechreu i'r diwedd, siaradai fel pe byddai wedi ei *anfon* gan Dduw, ac arweiniai y bobl i gredu y gallai ddweyd gyda hwy "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd." Yr ydym yn wir yn sicr, os

ydyw geiriau eglur yn werth rhywbeth, os ydyw'r Efengylau i fod yn gyfarwyddwyr i ni, nid oes dim i gyfiawnhau yr haeriad rhyfeddol sydd mor anwyl i iawnffyddiaeth, mai y bod a ymddangosai fel yn ymddibynu ar Dduw, a'r hwn oedd yn awyddus i droi golygon y bobl oddiwrtho ei hun at Dduw, oedd y Bod Hollalluog ei hunan.

Mae yn angenrheidiol i ddweyd yn y man hwn, nad oes dim eisiau er mwyn amcan y ddarlith yma, i fyned i mewn i'r cwestiwn o ddilysrwydd ac awdurdod llyfrau ac ymadroddion neillduol. Cymmeraf yn ganiataol fod yr Efengylau yr hyn a gredir yn gyffredin eu bod, sef hanesion cywir a chredadwy o weithredoedd a geiriau'r Iesu. Yn ychwanegol at Iesu yr Efengylau, fe ddichon fod yn awr Iesu beirniadaeth, Iesu barddoniaeth a chelfyddyd, Iesu yr offeiriad, Iesu y credoau, ac Iesu yr ymwybodolrwydd Cristionogol; ond nid oes dim galwad arnom ni yn awr i gyffwrdd ag un o'r rhai hyn. Mae a fynom yn unig â Iesu yr Efengylau. Mae y pwnc sydd genym mewn llaw yn gyfyngedig i hyn:—A ddarfu i Iesu yr Efengylau ddysgu ei Dduwdod ei hun, ac a ydyw y ffurf sydd yn ymsymud o'n blaen yn yr Efengylau yn ffurf *(figure)* Duw neu yn ffurf dyn? Ac yma rhaid i mi ddweyd yn blaen fy mod yn gwrthod cael fy nhaflu i ddyryswch gan yr hen ddyfais dduwinyddol o'r ddwy natur yn yr un person. Y cwestiwn yw, a oedd y bod a anwyd yn Bethlehem, a fu byw yn Palestina, a fu farw ar y groes, yn *ddyn* gwirioneddol, gyda meddwl dyn ac enaid anfarwol dyn, neu yr Hollalluog o dan gochl? Pan y dyfynwn ryw ddywediad o'i eiddo sydd yn profi ei ddyndod, wnaiff hi ddim o'r tro i ddweyd, "O, ond yr oedd e' yn dweyd hyny fel dyn," ac felly i wneyd defnydd o'i ddyndod a'i Dduwdod yn gymhwys fel y byddo'r angen yn codi. Y cwestiwn yw, A oedd e'n ddyn gwirioneddol, neu yn Dduw mewn dillad benthyg? Gallwch ddweyd os mynwch fod Duw wedi uno ei hun â'r Iesu trwy dywallt ei yspryd arno; ond yr wyf am i chwi sylwi mai Undodiaeth bur yw hyn, ac nad yw hyn ddim yn troi dyn i fod yn Dduw; a dim ond trwy *stretch* ofnadwy yn ystyr geiriau y gellir peri i hyn i wneyd dyn yn ddyn *ac* yn Dduw. Dyn *neu* Dduw yw y cwestiwn. Mae yn rhaid i chwi wneyd eich dewisiad, pe byddai hyny ddim ond er penderfynu a ydyw enaid anfarwol yr Iesu mewn bodolaeth yn awr. Os dywedwch chwi fod enaid anfarwol y *dyn* Iesu yn y nefoedd, yna mae genych ddau fod—dyn etto, a Duw; os dywedwch chwi nad yw'r Iesu yn ddyn mwyach, ond ei fod ef yn awr yn Dduw yn unig, naill ai yr ydych yn gwneyd dau Dduw—y Duw Iesu a Duw y Tad, neu yr ydych yn colli yr Iesu yn gyfangwbl, gan fod yr Iesu pan oedd e' ar y ddaear yn ddyn. *Lle mae y dyn Iesu oedd yn gweddio ar Dduw?* Nis gellwch ddianc y cwestiwn yna. Os ydyw yr Iesu, ynte, yn bodoli yn awr fel Duw yn unig, nid oedd ef yn ddyn gwirioneddol pan ar y ddaear, oblegyd mae gan ddyn gwirioneddol, fel yr ydych yn dweyd, enaid anfarwol; ond nid oedd hyny gan yr Iesu, os yn angeu y daeth yn Dduw, neu y cymmerodd i fyny ei Dduwdod, ac os nad yw efe mwyach mewn bodolaeth fel dyn. Er hyny, os yw enaid y dyn Iesu yn bodoli fel eneidiau dynion ereill yn y byd anweledig, yna nid oes genym etto ond y dyn Crist Iesu. Yr

wyf yn credu fod ystyriaeth wrol ac annibynol am hanner awr yn ddigon i argyhoeddi unrhyw feddwl rhydd nad yw y syniad o ddwy natur yn yr Iesu ond dyfais dduwinyddol yn unig, heb un sylfaen odditani nac un rheswm drosti.

Ond hyd y nod a chaniatau fod Crist mewn rhyw ddull dirgelaidd yn Dduw ac yn ddyn, a bod y Duw Hollalluog mewn modd anesponiadwy wedi cael ei eni yn Bethlehem, wedi dysgu yn Jerusalem, wedi marw ar Galfaria, byddai etto yn aros yn syndod mwy byth fod y Duw hwnw wedi byw, wedi dysgu, ac wedi marw, fel pe na byddai erioed wedi gwybod am ei Dduwdod ei hun ; oblegyd dyma'r ffaith. Yr ydych yn dweyd mai y bod a fu byw a marw yn Palestina oedd yr un Hollalluog Dduw. Yr wyf yn ateb, Os felly, nid oedd *efe* yn ymddangos fel yn gwybod hyny ; ac yn mhellach, yr oedd dan yr argraff dwyllodrus ei fod yn *fab* ac yn *was* gostyngedig a hollol ymddibynol ar Dduw. Dysgodd yn barhaus nad oedd ond un Duw ; ni adawodd le o gwbl i un arall. Nid yw byth yn ymddangos fel yn ymwybodol o ddwy natur ; nid yw ei ddywediadau fel dywediadau Duw yn siarad wrtho ei hun ; ond maent yn eiriau gweddi—dyn yn appelio at Dduw. Mae yn siarad â Duw *fel* dyn—gyda'r teimlad o'r pellder anfeidrol rhwng y Tad a'i blentyn, ac hefyd o'u hagosrwydd bendigedig ; mae yn gosod ei hun yn yr un agwedd tuag at Dduw â dynion ereill, ac yn cymmeryd gofal i ddweyd fod ei berthynas ef â Duw yr un â'u perthynas hwy. Os ydyw e' yn meddu mwy o allu, mae'n dangos y rheswm am hyny—fod y Tad wedi rhoddi iddo genadwri fwy pwysig a chyfran helaethach o'i yspryd. Mae'n dweyd yn bennodol wrth y bobl am beidio terfynu gydag ef, ond i fyned at Dduw—"fy Nuw i a'ch Duw chwithau, fy Nhad i a'ch Tad chwithau." Yr oedd yn plygu ei ben mewn gweddi ar Dduw, ac wrth farw gorchymynodd ei yspryd i Dduw, gan ddangos wrth hyny, yn y dull mwyaf cyffrous a difrifol, ei fod yn ymwybodol mai dyn oedd efe yn unig, a dyn yr hwn oedd yn teimlo angen i fyned fel ereill at Dduw. Yn hyn oll,—a dyma beth sydd yn treiddio, yn nawsu yr Efengylau i gyd,—yr ydych yn cael darlun *nid* o Dduw yn cuddio ei Dduwdod, ond o ddyn sydd yn gorphwys ar Dduwdod.

Yr wyf yn eithaf parod i ganiatau fod ymadroddion i'w cael mewn un Efengyl—yr Efengyl sydd yn dwyn enw Ioan—y rhai, os y darfu i Grist erioed eu llefaru, ydynt yn edrych fel pe byddai yn credu yn ei *raghanfod* yn y byd anweledig ; ond nid oes gan hyny ddim i'w wneyd â'r cwestiwn o'i Dduwdod. Mae yn bossibl fod yr Iesu wedi bodoli yn y nefoedd cyn y daeth i'r ddaear, ac etto fod yn genad oddi wrth Dduw, ac nid yn Dduw ei hunan. Nid yw o un defnydd i ddyfynu y fath adnod ag a geir yn Ioan xvii. 5, "Ac yr awrhon, O Dad, gogonedda di fyfi gyd â thi dy hun â'r gogoniant oedd i mi gyd â thi cyn bod y byd ;" oblegyd hyd y nod os mai yr ystyr yw, fod gan Iesu fodolaeth cyn y gwnaed y byd, byddai etto yn aros yn ffaith fod ei "ogoniant" yn yr amser hirbell hwnw yn eiddo iddo yn unig fel mab ymddibynol ar y Tad. Ond nid oes sicrwydd mai hyny yw'r ystyr. Ai nid oedd y gogoniant ag y gweddiai am dano, y gogoniant ag y credai oedd Duw wedi fwriadu iddo o'r dechreuad ? Mae ymadrodd

yn Epistol cyntaf Pedr (i. 20) yn taflu goleuni mawr ar hyn, gan ei fod yn desgrifio Crist fel un "a ragordeiniwyd cyn sylfaenu y byd, eithr a eglurwyd yn yr amseroedd diweddar." Hefyd yn Llyfr y Datguddiad, xiii. 8, mae genym y gosodiad rhyfeddol ac awgrymiadol am "yr Oen yr hwn a laddwyd er dechreuad y byd." Yn sicr nis gallai gael ei *ladd* er dechreuad y byd ond yn yr ystyr fod ei farwolaeth o'r dechreuad yn ffurfio rhan o gynllun mawr cynnwysfawr Duw; ac mae hyna nid yn unig yn awgrymu, ond hefyd yn ein gorfodi i ddyfod i'r casgliad fod ei ogoniant "cyn bod y byd" yn bodoli yn yr un modd yn y meddwl dwyfol, gogoniant arfaethol a gredai'r Iesu oedd Duw wedi fwriadu iddo, ac am yr hwn y gweddiai yn awr.

Yr wyf yn caniatau, ynte, fod mewn ychydig, ychydig iawn o adnodau, elfen nad yw yn hawdd i gymmodi â'r olwg mai dyn yn unig oedd Iesu Grist; ond mae yr ymadroddion yn mhell o fod yn anesponiadwy ar yr olwg hyny, ac mae'n angenrheidiol ac yn iawn, o leiaf, i adael i rai eglur i esponio y rhai tywyll, ac i'r eithriad i brofi y rheol. Yr wyf yn caniatau hefyd fod yr Iuddewon, ar ddau neu dri achlysur, yn ymddangos fel yn meddwl fod yr Iesu yn hawlio rhyw fath o gydraddoldeb â Duw; ond bob amser dangosai yr Iesu iddynt eu cyfeiliornad, gwrthodai y deongliad a osodent ar ei eiriau, hawliai yn unig i fod yn *fab* Duw, a dywedai y gallasent hwy fod hefyd yn wir feibion i Dduw, os gwnelent ymgais at hyny.

Ar y llaw arall, os Duw oedd yr Iesu, ni ddylai dim fod yn fwy eglur yn ei ddadguddiad o hono ei hun, dim yn fwy diamheuol yn ei addysgiadau. Ond mae'r ffaith i'r gwrthwyneb. Gwnaeth bob peth ag oedd yn ei allu i sefydlu y gwirionedd fod Duw wedi rhoddi iddo waith i'w wneyd, a'i gwneyd yn amlwg,—mai'r gwaith hwnw oedd adferiad ei frodyr at ei Dad ef a'u Tad hwythau, ei Dduw ef a'u Duw hwythau. Gan hyny, os oedd yr Iesu yn Dduw, gellir ei gyhuddo o'r creulondeb a'r trosedd ofnadwy o chwareu rhan, ac o guddio y gwirionedd oddi wrth ei greaduriaid ei hun. Cymmerwch yr amgylchiad a gofnodir yn Mat. xix. 16, 17, "Ac wele un a ddaeth ac a ddywedodd wrtho, Athraw da, pa beth da a wnaf fel y caffwyf fywyd tragywyddol? Yntau a ddywedodd wrtho, Paham y gelwi fi yn dda? Nid da neb ond un, sef Duw." Mae y testyn hwn yn ddigon i ddangos, nid yn unig wrthodiad eglur o Dduwdod, ond y dymuniad uwchaf i droi golygon yr ymgeisydd oddiwrtho ei hun at Dduw. Dychymygwch am foment berson yn ffurf dyn yn dweyd hyna, ac etto yn credu ei fod yn Dduw! Mae y peth yn anmhossibl. Ond pe yn bossibl, byddai yn beth ofnadwy i feddwl, oblegyd byddai genych ddarlun o Dduw ag sydd yn euog o dwyll gwirfoddol. W. J.

(*I'w barhau.*)

DYSGWCH yn graff a ddysgoch. Gwnewch rhyw un pwnc yn brif bwnc eich myfyrdod, efrydwch ef yn drwyadl ac yn ei holl agweddau, fel y galloch ddyfod yn feistr arno. Gwell gwybod pob peth, neu yn agos i bob peth ar un pwnc, nâ gwybod rhywbeth neu yn agos i ddim ar bob pwnc. Gwell bod yn awdurdod ar un pwnc nâ bod yn *nobody* ar bob pwnc.

LLENYDDIAETH YR UNDODIAID YN NGHYMRU.

(*Parhad o Rifyn Hydref*, 1875, *tud.* 178.)

50. "Natur a Manteision Zel Gristianogol, mewn Pregeth, ar Gal. iv. 18, a bregethwyd yn unol Gymmanfa y Presbyteriaid a'r Independiaid, yn Nghaerfyrddin, y 9fed o Fehefin, 1808. Gan y Parchedig Abraham Rees, D.D., F.R.S. A gyhoeddwyd ar ddeisyfiad gweinidogion o'r ddau enw, ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg, gan David Davis, a Timothy Davis, o Lwyn-rhyd-owain. Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Evans, yn Heol-y-Prior. 1809."

Mae'r cyflwyniad fel y canlyn:—"Y Cyfieithiad, gyda Pharch i'w Ddysg, ei Rinweddau, ei Ymdrechiadau, a'i Ddefnyddioldeb, yn achos Dysgeidiaeth, Rhyddid, Crefydd, a Duwioldeb, a gyflwynir i'r Parchedig Doctor Abraham Rees, gyda chydnabyddiaeth o'r ymgeledd a'r cynnorthwy helaeth a chyson a gyfranwyd i achos crefydd dros agos deugain mlynedd yn Nghymru; ac i'r Gweinidogion a unasant mewn dymuniad i'r bregeth gael ei chyfieithu, gyda gobaith y bydd, trwy Fendith Duw, yn foddion i helaethu cariad ac undeb trwy leihau zel bartiol dros bethau bychain, a chynnyddu zel pob plaid dros fywyd crefydd, a grym duwioldeb, gan y Cyfieithwyr."

51. "Rhagdraethawd i'r Testament Newydd, yn cynnwys Hanesion hollol newydd i'r Cymro uniaith, am Ganon y Testament Newydd; y corph-lyfr-derbyniedig; yr hen ysgrif-gopïau yn y iaith wreiddiol; hen gyfieithiadau; Argraphiadau Beirniadol o'r Testament Groeg; y gwahanol ddarlleniadau, &c. Wedi ei gyfieithu o'r Saesonaeg. Chwiliwch yr Ysgrythyrau. Caerfyrddin: Argraffwyd gan Jonathan Harris, Porth-tywyll. 1814." 64 tdd.

A oes rhywun o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD a all roddi rhywbeth o hanes y llyfr gwerthfawr a dyddorol hwn? Pwy ydyw'r awdwr, &c.

52. "Holiadur neu Addysgiadau Cyffredin, hawl ac atteb, yn Athrawiaethau a Dyledswyddau Crefydd, gan y Parchedig I. P. Estlin, D.L.L., Gweinidog Cynnulleidfa Dwyfundodiaid, yng Nghaer Odornant. A gymreigiwyd o'r Ail Argraphiad gan Iolo Morganwg, Bardd Cymdeithas Dwyfundodiaid Deheubarth Cymru.

I'n mysg iawn addysg yw nodded—iawnder,
Yw unduw'r gogoned;
Bydd yn loyw, yn groyw ei gred,
Un a ddwysgall iawn ddysged.—IOLO MORGANWG.

Merthyr Tydfil: Argraphwyd gan W. Williams, dros Gymdeithas Dwyfundodiaid Deheubarth Cymru. 1814." 36 tdd.

Mae ynddo 22 o Emynau o waith Iolo Morganwg, yn nghyd â saith Englyn ar Undod Duw.

53. Casgliad o Emynau o waith Mr. David Phillips, o'r Pil-mawr. Argraphwyd gan Jonathan Harris, Caerfyrddin. 1814. Cynnwysa 19eg o emynau, chwech o honynt ar y cymmun, addysg oddiwrth Mat. vi. 12, a chân ar y Drindod. 36 tdd.

54. "Afalau'r Awen; sef Caniadau Moesol a Duwiol, yn cynnwys Anerchiadau i fyw yn weddaidd, ac i ymddwyn yn gariadus at bawb

o ddynol ryw. Gan Edward Evan, o Aberdar. At ba rai ychwanegwyd Llyfr y Pregethwr ar fesur cerdd. Yr ail argraphiad, ynghyd a llawer o ychwanegiadau o eiddo'r awdwr.

Cantorion o'r bron heb rus,—iawn brofwch
Hen brif-fardd deallus;
Mewn mudrau mwynion medrus,
Seigiau gewch, nid soeg, ac us.

Gwelwch mewn goleu gwiwlan,—iawn eiriau
Hen Iorwerth ab Ifan;
Bardd rhywiog enwog anian,
Ail ofydd gwiw er gelfydd gân.—BRYCHAN.

Merthyr Tydfil: Argraphwyd, ac ar werth gan W. Williams. 1816. [Pris dau swllt a chwe'cheiniog.]" 154 tdd.

Cyhoeddwyd y trydydd argraffiad gan T. Price, Merthyr Tydfil, yn 1837. Mae y pedwerydd argraffiad allan yn awr, a gellir ei gael am 2s.

55. "Mai Un Duw sydd, y Tad; ag Un Arglwydd, Iesu Grist. Pregeth a bregethwyd yn y Gelli-onen, Sir Forganwg, Mehefin 27en, yn y Flwyddyn 1816, ger bron Cymdeithas y Dwyfundodiaid, ac a Gyhoeddir ar eu Deisyfiad ag ar eu Traul. Gan John Evans, gweinidog yr Efengyl. Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Harris, yn y Porth-Tywyll. 1817."

Mae y Rhagymadrodd dan y penawd "Cyflwyniad i'r Gymdeithas" yn cael ei lawnodi gan yr awdwr dan yr enw Ioan Dafydd Ifan. Mae'r bregeth yn 38 tdd., ac ar ei diwedd mae "Pennillion ar y Testyn" (4 pennill), wedi hyny ceir "Gofynion i Drindodiaid," a thrachefn "Ail res o Ofynion i Drindodiaid," ac ar y diwedd dau ddernyn o farddoniaeth—"Gwerth Gwirionedd" a "Gwledd i Ffyddloniaid ar ben eu Taith." Testyn y bregeth yw 1 Cor. viii. 6. Nid yw'r farddoniaeth yn ddim llawer o werth.

56. "Y dull yr aeth y byd o chwith: neu'r modd y cynhyddodd Trais, Ymchwydd, a Balchder, nes dwyn y Bobl i'r sefyllfa Athrist Bresenol. 'Wele ni heddyw yn weision; ac am y wlad a roddaist i'n tadau ni, i fwytta ei ffrwyth a'i daioni, wele ni yn weision ynddi. A mawr yw ei thoreth hi i'r brenhinoedd a osodaist arnom ni, am ein pechodau: ac arglwyddiaethu y maent ar ein cyrph, ac ar ein hanifeiliaid yn ol eu hewyllys; ac yr ydym mewn cyfyngder mawr.'—NEHEMIAH, PEN. ix., ADN. 36, 37. Merthyr Tydfil: Argraphwyd, tros yr Awdwr, gan W. Williams. 1817." 16 tdd.

Priodolir y gwaith hwn i Gwilym Morganwg.

57. "Y Cyfammod Newydd, yn cynnwys Cyfieithiaid Cyffredinol y Pedair Efengyl, gwedi ei ddiwygiaw yn ol y Groeg. Gan John Jones, L.L.D. et J. C. Llyndin: Argraphwyd gan John Williams, Ship Place, Strand; ac ar werth gan Lackington a Co., Finsbury-Square, a phob gwerthwr Llyfrau trwy Gynmry. Pris 5s. 1818." 250 tdd.

Yr oedd Dr. Jones yn awdwr amryw weithiau Seisnig. Gweler Geiriadur Bywgraffyddol J. T. Jones, Cyf. II., tud. 89.

58. "Appel yr Undodiaid; ynghyd a Phrofion Ysgrythurol. Yn Saesneg, gan Laut Carpenter, Ll.D. A'i Gymreigo gan Thomas Evans. Merthyr Tydfil: Argraphwyd gan J. James. 1821. Pris Dwy-Geiniog." 12 tdd.

59. "Dwy Gan. I. Cymhorth i Hunan-Adnabyddiaeth. II. Golwg ar Sefyllfa Cristianogrwydd o amser Crist hyd yn bresennol, gan Elizabeth Davies, Cellan." [*Title-page* yn anmherffaith.]

Mae'r gân gyntaf yn cynnwys 60 o bennillion pedair llinell. Yr oedd E. D. yn chwaer i'r diweddar Barch. John Davies, Castellnedd.

60. "Celwydd yn cael ei wrthwynebu a'r Gwirionedd ei amddiffyn; sef amddiffyniad byr o Egwyddorion yr Athrawiaeth Undodaidd; yn erbyn Camddarluniadau, a Chamgyhuddiadau, y Parchedig Robert Humphreys, (Pregethwr teithiol ymysg y Trefnyddion Wesleaid;) a achoswyd gan Bregeth a bregethodd efe, ar y 7ed o Gorphenaf, 1822, mewn Llythyr at y rhagddywededig Robert Humphreys. Gan Ioan Evan Dafydd, Llandybie. 'Ac y mae'r awr yn dyfod y tybia pwy bennag a'ch lladdo, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. A'r pethau hyn a wnaut i chwi oblegyd nad adnabuant y Tad na myfi.' —*Iesu Grist.* 'They who persecute others even for the most heretical opinions may expect the heaviest judgment of Almighty God.'—*Dr. Adam Clarke.* Davies, Argraffydd, Llandilo." 24 tdd.

61. "Pregeth, ar Unoliaeth Duw; gan Humphrey Bromley; yn ddiweddar Pregethwr Cynorthwyol yn Nghymdeithas, y Methodistiaid Wesleyaidd. 'Hyn yr ydwyf, &c.'—Act. 24, 14. 'Gan chwilio, &c.' —Act. 17, 11. Argraphwyd gan W. Pryse, Croesoswallt. 1822."

62. "Cyfansoddiad o Hymnau, &c., &c. Gan Thomas Evans.—Yr Ail Argraffiad. Merthyr Tydfil: Argraffwyd gan J. James. 1822."

T. C. U.

(*Fw barhau.*)

EGLWYSI A CHAPELI.

Nid oes eisiau i ni fyned yn ol i'r canol-oesau, a galaru wrth feddwl am ddirywiad yr oesau diweddar, wrth gofio am y cyfoeth a dreuliai dynion yn y dyddiau hyny i adeiladu eglwysi harddwych er mwyn addoliad Duw. Yn y lle cyntaf, yr oedd y rhan fwyaf o'r arian a dreulid felly yn eiddo neillduol swyddogion eglwysig, wedi ei wneyd i fyny o gyllid gweddill mynachdai ac esgobaethau, y rhai a lyncent hanner cyfoeth y genedl. Yn yr ail le, er nad ydym ni yn awr yn adeiladu eglwysi cadeiriol tebyg i'r rhai a welir yn Winchester, a York, a Salisbury, etto yr ydym yn gwbl mor haelionus yn awr, ac yn aberthu cymmaint wrth adeiladu y temlau sydd yn gymhwys i angenion yr oes bresenol; ac yr ydym yn talu am danynt hefyd, nid ag arian mynachdai heb un defnydd arall iddynt, ond à chyfraniadau gwir-

foddol y bobl, ag arian ag y gallai y bobl, pe y dewisent, eu defnyddio er dwyn yn mlaen fasnach y byd. Mae yr ystadegau a gyhoeddwyd er ys rhyw amser yn ol, mewn perthynas i'r adeiladau crefyddol ydynt wedi eu codi yn y wlad yma yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, yn dangos o leiaf un ffaith tuhwnt i amheuaeth. Pa gyfnewidiadau ereill bynag sydd yn pasio dros feddyliau dynion, nid yw crefydd ei hunan yn colli dim o'i gafael ar eu sylw, yn colli dim o'i gallu i beri iddynt aberthu er ei mwyn. Dywedir wrthym fod yr arian sydd wedi eu treulio i adeiladu eglwysi a chapeli mewn saith o drefydd wedi bod yn £80,000 yr un, ac mewn 34 o ddinasoedd a threfydd, nid oes dim llai nâ dwy filiwn o bunnau wedi cael eu defnyddio. Mae adeiladau newyddion yn barhaus yn cael eu hagor dros yr holl wlad, a hyny nid cymmaint am fod y boblogaeth yn cynnyddu, oblegyd mae cyfartaledd y personau yn mhob cant i'r rhai y cynnygir cartref crefyddol yn awr, yn llawer iawn mwy nag oedd ugain mlynedd yn ol, neu yn llawer mwy nag mae wedi bod erioed ond yn y manau hyny lle nad yw y boblogaeth, mewn cymhariaeth, yn lluosog iawn.

Mae Eglwyswyr ac Ymneillduwyr yn rhy hoff o dalu eu sylw, wrth edrych i mewn i ystadegau fel hyn, i'r ymdrechion cymhariaethol a wneir yn y cyfundebau gwahanol ag y perthynant iddynt. Ant i nwydau drwg wrth edrych dros y ffugrau, ac wrth gymharu, gyda rhywfaint o genfigen feallai, adeiladau gorwych o faen a barhant am genedlaethau â'r capeli ydynt mor syml ag "ysguboriau," neu yr *iron churches* sydd wedi eu bwriadu am ychydig flynyddau i gyflenwi angenion crefyddol yr addolwyr sydd yn dewis cyrchu yno. Er enghraifft, dywedir wrthym fod gan yr Eglwys Sefydledig yn y ddwy dref ar hugain o'r ail ddosparth, 292 o leoedd addoliad, tra mae gan yr Ymneilduwyr 809; ac hefyd gallwn weled fod y 292 o adeiladau perthynol i Eglwys Loegr yn darparu seddau i 222,878 o bersonau, a'r 809 o gapeli seddau i 443,565—hyny yw, a siarad yn agos i'r nod, gymmaint arall o seddau ar gyfer tri chymmaint o adeiladau. Hefyd gelwir arnom i sylwi fod rhesymau neilduol—megys tyfiant cyflym tair o drefydd gweithiol Cymru, Abertawe, Caerdydd, a Merthyr,—ydynt yn esponio paham mae yr elfen Ymneillduol mor gryf yn y ddwy dref ar hugain o'r ail ddosparth, a phaham mae yn agos i ddwy ran o dair o foddion addoliad cyhoeddus yn llaw yr Ymneilduwyr. Mae y gwahaniaeth yn cael ei wneyd i fyny yn rhanol pan y cymmerir y dinasoedd mawrion i mewn, a chanlyniad yr holl ymchwiliad, ar ol gosod 34 o drefydd mawrion gyda'u gilydd, yw fod y cyflenwad a gynnygir gan yr Eglwys a chan y gwahanol gyfundebau Ymneilduol mor agos ag mae'n bossibl yr un faint, gan fod 660,000 o seddau yn yr Eglwysi, a rhywfaint dros 700,000 yn y capeli. Ond os ydyw yn anhawdd i ddynion ydynt yn llawn awydd i daenu y golygiadau a ystyriant hwy o'r pwysigrwydd uwchaf, i ymatal oddiwrth edrych gyda theimlad cenfigenus ar gynnydd eglwysi ereill, dylai fod yn bossibl i bawb o honom ni ambell waith i godi uwchlaw y fath ystyriaeth o'n gwahaniaethau, ac i edrych gydag hyfrydwch ar yr olygfa fawreddog o genedl grefyddol yn ymdrechu, yn nghanol ei bywiogrwydd gwleidyddol a

masnachol, i adeiladu i fyny tufewn iddi fywyd uwch nag y gall pwysigrwydd gwleidyddol na masnachol ei gyfranu. Fe ddygwydd llawer camgymmeriad yn ymdrechion y gwahanol gyfundebau yma, pe na byddai un rheswm arall ond fod llawer o honynt yn gwrthod y sylfeini a ystyrir yn hanfodol gan y llall, ac yn condemnio eu gilydd o herwydd bod eu credoau yn rhy hir neu yn rhy fyr. Ond mor wir, er hyny, yw y *syniad* gwreiddiol o'r hwn mae'r holl fywiogrwydd crefyddol yma wedi tarddu! Mor sylweddol yw y cariad at Dduw a'r cariad at ddyn sydd wedi cymhell yr aberthau costfawr o amser ac arian ag y mae y cannoedd eglwysi a chapeli newyddion yma yn gynnrychioli! Pan yr ydym yn rhodio trwy heolydd ein trefydd mawrion, yn nghanol twrf gorchwylion beunyddiol y boblogaeth, ein llygaid yn cael eu dallu gan wychder yr adeiladau a swynion y masnachdai, yn mhob congl yr ydym yn cael ein hadgofio gan eglwysi mawreddog a chapeli eang nad yw ein cyd-ddynion ddim i gyd yn forgrug yn llafurio am y bwyd a dderfydd yn unig, ond yn eneidiau byw yn hiraethu—er feallai yn llesg ac yn eiddil, a dim ond ar un dydd allan o'r saith,—am rywbeth gwell, uwch, a mwy santaidd; am fywyd yn cael ei symmud gan gymhelliadau ereill heblaw elw—am "ddinas ag iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw."

Paham na fyddem ni yn agor ein llygaid i weled fod genym ni, ar ol y cwbl, un gobaith, un dymuniad, a bod y moddion sydd genym i gyrhaedd hyny, er nad ydynt yn gwbl yr un fath, ddim yn fwy gwahanol nag yw ein gwahanol gyfansoddiadau a'n neillduolion moesol? Nid oedd brenin Siam yn hollol *wrong* pan y dangosai i'r cenadwr gorselog y dail amrywiol ar y coed yn ei ardd. "Profwch i mi," meddai, "fod Duw wedi gwneyd dwy ddeilen yn hollol debyg, yna fe wrandawaf arnoch pan y dywedwch ei fod wedi gwneyd dau enaid yn gyffelyb, a'i fod yn gofyn y dylent ei addoli ef yn hollol yn yr un ffordd." Fel mae yr Eglwysi yn Jerusalem—yr Eglwysi Groegaidd, Nestoraidd, Lladinaidd, a Choptaidd, i gyd yn agor i'r Bedd Santaidd, tra na oddefir i un o honynt i gymmeryd meddiant o'r man cyssegredig ar wahan oddiwrth y lleill, felly mae yn rhaid i minau gredu fod ffordd allan o bob *sect* i'r cyssegr santeiddiolaf yn nheml Duw. Mae gan un, yn ddiamheu, gredo burach nâ'r llall, ac mae credo bur, wirioneddol, yn rhodd anmhrisiadwy, am yr hon ni thalodd y merthyron ormod o bris wrth ei phrynu â'u gwaed. Ond pwy all fesur pa mor bell mae unrhyw gredo yn suddo i galon dyn, ac yn gwneyd ei weledlad o'r Haul mawr yn eglurach neu yn dywyllach? Ai nid doeth y dywedodd yr hen Scotus, "Yn sicr nid yw y trugaredd dwyfol yn caniatau i neb sydd yn ei geisio Ef yn wirioneddol i fyned i golli yn nghanol cyfeiliornad, ac i farw yn ei lyfetheiriau?" Nid ein gwaith ni yw dweyd am ein brawd ei fod yn mhellach oddiwrth y cartref hwnw ydym ni bawb yn ceisio am dano nâ ni ein hunain, ond dylem deimlo yn hytrach fod yr eglwys gadeiriol a'r capel diaddurn, bob un o honynt, yn Dŷ Dduw ac yn Borth y Nefoedd i'r rhai sydd yn addoli mewn ysbryd ac mewn gwirionedd.

F. P. C.

YCHYDIG O OFYNIADAU YCHWANEGOL I DRINDODIAID.

1. Ai gwybodaeth neu anwybodaeth sydd yn rhoddi arglwyddi lawer a duwiau lawer i'r paganiaid?

2. Ai nid yw y paganiaid, fel y byddont yn dyfod yn fwy goleuedig, yn lleihau nifer eu duwiau i dri chant, i ddeg ar hugain, neu i ddeg?

3. Mae llawer o Gristionogion yn dal nas gall y nifer gael ei leihau yn is nâ'r drindod. Ai nid yw hyn yn olion paganiaeth?

4. Ai ni ellir priodoli holl arddangosiadau natur i'r un Bod mawr?

5. Oni ellir cyfrif am holl ffyrdd Rhagluniaeth ar y dybiaeth o un Gallu llywodraethol?

6. Ai ni ellir egluro holl gynllun prynedigaeth ar sail Undod diranedig Duw?

7. Gweddiai Crist am faddeuant i'w elynion. Ai gweddi ffydd ydoedd? Ac a fydd i'r weddi hono gael ei hateb?

8. Yr oedd Crist yn gyfaill publicanod a phechaduriaid yn y byd *hwn;* a ydyw efe yn gyfaill iddynt *yn awr?*

9. A fydd efe yn gyfaill iddynt *bob amser?* Os na fydd, a ydyw efe yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd?

10. A thybied bod yr Iesu yn Dduw ac yn ddyn, pa un o'r ddau a fu farw?

11. Os mai'r dyn yn unig a ddyoddefodd, paham yr ydych yn dal iawn anfeidrol?

12. Os nad oedd iawn anfeidrol, a oedd pechod anfeidrol i gael ei ddileu?

13. Os *nad* oedd pechod anfeidrol, paham yr ydych yn sefyll dros uffern ddiddiwedd?

14. A ydych yn gwybod nad yw y gair Iawn ond yn dygwydd ychydig o weithiau yn y Testament Newydd, ac mai'r gair a arferir yn gyffredin yw *cymmod?*

15. A ydych yn gwybod mai *dyn* ac nid Duw sydd i dderbyn yr Iawn?

16. A ydych yn gwybod fod yr un gair Groeg yn cael ei gyfieithu mewn manau ereill yn *gymmod?*

17. A ydych yn gwybod fod y ferf Roeg gyfatebol yn cael ei chyfieithu *cymmodi?* (2 Cor. v. 18—20).

18. A ydyw Duw i gael ei gymmodi â'r byd? Yn hytrach, ai nid y byd sydd i gael ei gymmodi â Duw?

19. Paham gan hyny y mae gwŷr y credoau yn dysgu fod Crist wedi dyoddef a marw i gymmodi ei Dad â *ni?*

20. Neu paham y maent yn pregethu, yn gweddio ar, ac yn canu am Dduw wedi ei gymmodi?

21. Os na ddarfu Duw erioed ymddyeithrio oddiwrth ddyn, ai nid yw yr holl anhawsder yn tarddu oddiar anwybodaeth a chyndynrwydd dyn?

22. A ydyw yn bossibl i'r anhawsder hwn i gael ei orchfygu mewn unrhyw ffordd arall nâ thrwy ddadguddio cariad cyffredinol digyfnewid Duw?

23. A gafodd Iesu Grist y cyfiawn mewn unrhyw fodd ei gospi yn bersonol, neu fel dirprwy?

24. Os y darfu iddo mewn unrhyw fodd gael ei gospi, paham na ddywed y Beibl hyny yn eglur?

25. A ddywed y Beibl i'r Iesu gael ei gospi, "y cyfiawn dros yr annghyfiawn?"

26. Mae pob cosp yn ddyoddefaint. A ydyw pob dyoddefaint yn gosp?

27. Gall dyn diniwed a chyfiawn gael ei garcharu, ei grogi, neu ei groeshoelio. A alwn ni hyn yn gosp?

28. Fe ddichon i ddyn cyfiawn *ddyoddef* dros yr euog; a all gael ei *gospi* yn ei le?

29. Darfu i Grist ddyoddef gan adael i ni esampl; ai esampl o rinwedd dirprwyol ydoedd?

30. Ai nid yw pechod cyfrifol a chyfiawnder cyfrifol yn wrthun ac yn anmhossibl?

31. Ni wna yr Arglwydd gyfrif pechod i'r edifeiriol. Ai nid yw hyn yn golygu na wna efe ddim edliw iddynt y beiau a wnaethant?

32. Ai nid yw ymddygiad y Tad tuag at yr afradlon dychweledig yn dangos nas gellir cyfrif pechod?

33. A ydyw yr Arglwydd yn cyfrif rhywbeth i ddyn nad yw yn briodol yn eiddo iddo?

34. A all diniweidrwydd, cyfiawnder, neu bechadurusrwydd fod yn rhywbeth heblaw mater personol?

35. Os nad oes cyfnewidiad ar ol marwolaeth, pa beth a ddaw o fabanod, plant bychain, ac ynfydion?

36. A ydyw un ddamcaniaeth yn werth rhywbeth a fyddo ar y dechreu yn gwneuthur miliynau o eithriadau?

37. Os nad oes cyfnewidiad ar ol marw, beth a ddaw o Iuddewon gwir ddidwyll, Mahometaniaid, &c.?

38. A oes rhyw ddyn mor santaidd yn y byd hwn fel na byddo angen cyfnewid arno ar ol marw?

39. A wneir y da yn well a'r drwg yn waeth?

40. A oes dim rhyw ddaioni hyd y nod yn y dyn gwaethaf, er y dichon ei bod yn anhawdd iawn ei weled?

41. A oes dim drwg hyd y nod yn y dyn goreu, er mai o'r braidd y gellir ei ganfod?

42. A oes gwahaniaeth anfeidrol rhwng y dyn goreu a'r dyn gwaethaf?

43. A ydyw yn ddichonadwy i ranu yr hil ddynol yn briodol i ddau ddosparth—y drwg a'r da?

44. A fyddai rhagor nâ chysgod o wahaniaeth rhwng y goreu o'r drwg a'r gwaethaf o'r da?

45. A ellir yn gyfiawn wneyd gwahaniaeth anfeidrol rhwng tynged olaf y ddau?

46. "Y mae Duw, gan hyny mae'n rhaid fod diafol." Gof. A oedd Duw pan nad oedd etto ddiafol?

47. A ydych yn bagan, yn dal fod y drwg a'r da yn gyd-dragwyddol?

48. Os oedd Duw pan nad oedd diafol, a ellwch chwi egluro paham rhaid fod diafol yn *awr* am fod Duw?

49. "Y mae nefoedd, gan hyny mae'n rhaid fod uffern." Gof. A ydych yn golygu fod nefoedd ac uffern wedi cyd-oesi am dragwyddoldeb?

50. Os bu nefoedd unwaith pan nad oedd uffern, a ellwch egluro y rheswm fod uffern yn *awr* am fod nefoedd?

51. Os bu nefoedd unwaith a dim uffern, ai nid yw yn bossibl y bydd etto nefoedd heb uffern mewn cyferbyniad?

52. Pe byddai gan ddiafol anfeidrol hollol lywodraeth dros bob enaid, a ydyw yn bossibl i hyd y nod un enaid gael ei achub?

53. Gan fod gan Dduw anfeidrol lywodraeth gyffredinol, a fydd i hyd y nod un enaid gael ei golli yn y diwedd?

54. Pa beth *gwaeth* a allasai y Bod mawr wneyd nag uffern annherfynol?

55. A allasai hyd y nod diafol y credoau wneuthur rhywbeth yn waeth nâ hyny?

56. Beth allasai yr Arglwydd wneyd yn well nâ dwyn pob enaid i'w adnabod, ei garu, a'i addoli?

57. A ellwch chwi ddirnad am ryw amcan yn fwy anrhydeddus, neu un diwedd yn fwy gogoneddus nâ hwn?

58. A fydd i rywbeth yn fyr o hyn fod yn ateb i weddi calon y Cristion?

A. C. Thomas.

TAITH DRWY EWROP AC ASIA.

Mr. Gol.,—Wedi byw yn Unol Dalaethau America am 31 o flynyddau, cymmerais fy nheulu, gwraig a phedwar o blant (oll yn Americaniaid ond fy hun), ac ar y 13eg o Fai, 1873, gadawsom ein cartref yn Yellow Spring, Green Co., O., a chyrhaeddasom New York, tua 800 o filldiroedd, mewn 26ain awr, ac mewn deng niwrnod cyrhaeddasom Liverpool, a chyn diwedd y mis yr oeddem wedi cyrhaedd Dyffryn Clettwr Fach, lle'm ganwyd yn 1816. Yn New York, trwy gytundeb blaenorol, ymunasom â theulu Mr. Tanner, o dalaeth Caerefrog Newydd. Yr oedd fy holl gwmpeini yn hollol ddyeithr i'r mor, yn gystal a holl olygfeydd Lloegr a Chymru. Wedi byw trwy yr haf yn mhentref Aberaeron, a theithio llawer yn ol ac yn mlaen trwy Loegr a Chymru, &c., yn niwedd Awst cymmerasom ein teuluoedd i Lundain a Paris, tra ar ein ffordd i wledydd pellach y Dwyrain. Ar y ffordd o Lundain i Paris, cyfarfyddasom â Chymro a'i wraig o'r enw Phillips, o Scranton, Pennsylvania, y rhai oeddent ar ymweliad â'r hen wlad. Ymunasom â hwy yn un cwmni yn ngwlad y Ffrancod, a chan eu bod hwy yn troi yn ol i Lundain, aeth ein teuluoedd ni yn eu cwmni hyd y ddinas hono, tra yr aeth Mr. Tanner a minau rhag ein blaen i'r Aifft a Chanaan a gwledydd ereill. Yn canlyn mae bras hanes o'r teithiau hyny,

yr hyn yr wyf yn anfon ar ddeisyfiad amryw o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD. Os bydd darllen yr hanes yn rhoi hanner cymmaint o ddyddanwch i'ch darllenwyr ag oeddwn i yn ei gael wrth deithio, fe fydd yn werth ei roddi yn y wasg.

E. W. HUMPHREYS.

YN Llundain, gwnaeth Mr. Tanner (Americwr) a minau, gytundeb a Mr. Thomas Cook a'i fab, o Fleet Street, am fyned ar daith drwy Ewrop ac Asia. Yr oedd yr amod tros unarddeg ereill, sef wyth o Americaniaid, dau Sais, ac un o Ysgotland. Yr oeddem yn cytuno dros yr holl daith, yn cynnwys pymtheg diwrnod yn Ewrop, ugain yn yr Aipht a Gwlad Canaan. Yr oedd ein tocynau yn cuddio treuliau reilffyrdd, agerddfadau, ceffylau, neu asynod, os byddai eisiau, gyda bwydydd a llety. Gan fod ein tocynau yn yr ail radd, pan yn ngwledydd Ewrop, gorfu i ni dalu pump punt yn rhagor er cael yr anrhydedd o dramwy yn y *first class accommodation.* Pe tramwyem y ffordd yma etto, a chael fy newisiad am yr un pris gyda'r eithriad o ddwy *route*, 'e fyddai yn llawn cystal genyf ar y reilffordd yn yr ail radd, a phe buaswn yn y radd flaenaf. Nid oedd y gwahaniaeth ond ychydig. Heblaw y gost a soniwyd, talasom lawer o bunoedd er ychwanegu ein teithiau, etto, yr oedd ein cytundeb a Mr. Cook yn hollol foddhaol gan yr holl gwmni. Dylai *outfit* i daith fel hon fod can lleied a fyddo'n bossibl. Ffolineb fyddai cymmeryd trynciau, byddai *knapsack* o faintioli cyffredin yn ddigon. Gwelsom lawer iawn o ryfeddodau yn Ffrainc, heblaw a welsom yn Ninas Paris a'i hamgylchoedd. Buom yn Dieppe a Rouen. Yr oedd yr olaf yn nodedig yn hanesyddiaeth y wlad hono, am mai yno y llosgwyd Joan of Arc. Y mae tai drwy y wlad yn bentrefydd yma ac acw. Ni welir y ffermdai yno yn wasgaredig, fel yn y wlad hon a Chymru. Y mae dulliau ac arferion yn ysmala iawn. Y maent yn siarad, nid yn unig a'u genau a'u tafodau, ond a'u dwylaw hefyd. Yr oedd yn 10 o'r gloch y nos pan yr aethom i fewn i Ddinas Paris, a choeliwch ni yr oeddem yn teimlo yn chwithig wrth glywed cymmaint o Wi, wi. Rhywfodd llwyddasom i gael *coachee*, fel y galwant ef, ac aeth a ni i'r St. Quinten Hotel. Yr oedd y lle yn rhagorol o dda, gyda'r eithriad nad oedd yno yr un yn gallu siarad Saesneg. Drwy ryw anffawd o eiddo y *coachee* bnom bron a chael ein gyru ffwrdd i rywle arall. Y mae yn debyg fod gwr y ty yn dywedyd nas gallasai ein cadw dros y nos. Beth bynag, gwrthodasom fyned oddiyno; chlywsoch erioed sut ffrwgwd fu yno: tua 8 o'r Ffrancod yn gwaeddu nerth eu cegau, a thua yr un nifer o honom ninau yr un fath, ac nid oedd yr un o honom yn deall y naill y llall. Tebyg y buasai y Babel hono yn parhau ac yn gwaethygu oni bai i un ferch Ffrengig a ddysgodd yn yr American School i ofyn am ddistawrwydd. Cafwyd hyny yn foneddigaidd; ac wedi gosod y cais gerbron yn ddealladwy, dyna y wraig fach Ffrancaidd yn gwenu o glust i'w gilydd, ac yn parablu wi, wi, gyda gwen naturiol. Meddyliem yn awr fod ein gofid trosodd; ond gwnaethom gamsyniad, oblegyd yr oedd y *coachee* heb ei dalu, a ninau heb newid ein harian,

nid oedd yr un *sou* gan un o honom. Gofynasom i'r wraig a fuasai hi yn talu y bil trosom i'r *coachman*, er mwyn cael taw ar ei geg. Yn sicr, bu y fenyw fach yn dosturiol wrthym drwy arwyddo fel cynt, wi, wi. Yr oedd y siarad rhwng y *coachee* a'r wraig yn brawf fod yno rywbeth anffafriol; oblegyd yr oedd y llais yn codi, a'r parabl yn cyflymu. O'r diwedd, dyma y *coachman* yn codi ei ddwylaw ac yn dangos wyth bys, a'r ddynes, hithau yn troi ac yn dangos pump i ni. Felly gwelsom y tric; yr ydoedd y *coachee* am ein *cheato* drwy godi wyth *franc*, a'r ddynes yn dywedyd nad oedd hawl ganddo ond i bump, a gorfu iddo eu cymmeryd; ond coeliwch fi, ymadawodd mewn tymher ofnadwy. Beth bynag, cafwyd llonyddwch i orphwys tipyn. Tranoeth aeth y *landlord* a ni i weled ardderchawgrwydd y ddinas. Cerddasom lawer yn ystod y pedwar diwrnod y buom yno. Ymwelsom a Notre Dame, Bastille, Column Vendome, Hotel de Ville, Tuilleries, Louvre, Luxembourg, Champ de Elysees, ac Invalid's Place de Concorde, &c. Yr oedd y tafarnwr yn gwbl addas i'n harwain; oblegyd yr oedd efe yn gyfarwydd yn mhob ystryd. Cawsom ein synu yn rhyfeddol pan yn edrych ar yr heirdd eglwysi, y palasdai costus ac ardderchog. Yr oedd ein cwmni yn gwaeddi yn fynych, '*This is wonderful*!' Yr oedd yr arweinydd, yntau yn gwaeddi, '*Tres beau! tres beau!*' Weithiau byddem oll i gyd yn gwaeddi '*Tres beau*' gydag ef. Fel yna byddem yn dysgu tipyn ar yr iaith, er na allem sillebu y gair; yr oeddem yn gallu ei swnio yn gampus.

Ar yr 8fed o Fedi, ymadawsom a'n teuluoedd, a Mr. Phillips a'i wraig. Troisant hwy yn ol i Loegr, a throisom ninau ein gwynebau i'r Dwyrain. Croesasom ar led gwlad odidog y Ffrancod, i fewn i Switzerland, Baden, Saxony, Bavaria, Awstria ac Itali, hyd Naples. Yno yr oeddem i gyfarfod a'r lleill o'n cyd-deithwyr, y rhai oedd wedi cymmeryd tramwyfa arall. Yr oeddem wedi cael ein boddloni yn dda iawn yn y daith hyd yma; etto, teimlem ryw annymmunoldeb o herwydd nad allem gyfeillachu a dyeithriaid; hefyd yr oedd tipyn o berygl yn ein cylchynu gan ein bod yn tramwy yn llwybr y cholera. Beth bynag, yr oedd y golygfeydd newyddion, y mynyddoedd a'r bryniau, y llynoedd a'r afonydd, y bobloedd a'u harferion, yn nghyd a'r caredigrwydd mawr a ddangosent i ni yn gwneuthur llawer o'r diffygion i fyny. Y nos cyntaf wedi i ni ymadael a Paris, arosasom yn heu dref Troyes. Nid oedd, ar a wyddom, yr un dyn yno yn medru siarad Saesneg. Gwneuthur oreu gallem drwy arwyddion oeddem. Teimlem dipyn yn chwith wrth y bwrdd. Rhaid oedd myned drwy ddeg neu ddeuddeg o seigiau (*courses*) cyn cwblhau y gorchwyl. Yr oedd fy nghyfaill, Mr. Tanner, yn ystyried llawer o ffolineb yn nglyn ag arferiad felly. Tua'r pedwerydd cylch digwyddodd iddo ef gael dysglaid ragorol o gig eidion a chloron; ac yr oedd yn ystyried y byddai hono yn ddigon o swpper iddo. Gosododd ei gyllell a'i *fork* ar y ddysgl, a thra yn siarad a mi am ei ffawd cyn dechreu, cymmerodd un o'r *waiters* ei ddysglaid ymaith, gan feddwl ei bod yn wrthodedig wrth weled y gyllell a'r *fork* yn gorwedd fel yr oeddent; ac ni allai Mr. Tanner ddarbwyllo y creadur i gredu llai nad oedd y ddysglaid yn

wrthodedig ganddo. Os oes eisiau dysgu amynedd arnoch, er pob peth gwnewch drafaelu trwy wledydd estronol heb genych ond Cymraeg a Saesneg. Yr oeddem yn gweled llawer iawn o olion y rhyfel diweddar pan yn croesi Ffrainc. Yr oedd dulliau gwledydd y Dwyrain o letya a bywiolaethu yn wahanol iawn i ddulliau Prydain ac America. Yr oedd gweled gwlad heb unrhyw fath o glawdd (*fence*) arni yn ymddangos yn od iawn i mi; a gweled dynion, ffermwyr, yn y boreuau yn cerdded tair i bedair milldir i'w tiroedd yn ymddangos yn anhwylusdod mawr i amaethyddiaeth lwyddianus. Ar y 9fed o Fedi, cyrhaeddasom Basle, yn Switzerland; yno daethom i gyfarfyddiad a'r iaith Ellmynaidd a'i chlegiadau (*gutturals*) arswydus; yr oedd i'w chlywed mor hynod wedi ymarferyd i raddau a iaith lithrig y Ffrancod. Nid yw rheolau cymdeithas mor goethedig gyda yr Ellmyn; gwelsom hyn yn amlwg pan yn tramwy; etto, gall fod eithriadau. Pan yn tramwy ar y rheilffordd yn Ffrainc, peth cyffredin oedd eu gweled yn cynnyg i ddyeithrddyn y lle goreu; hefyd, yr oeddent yn barod iawn i roddi hyfforddiadau gyda golwg ar y wlad, a phethau ereill cyssylltiedig a thramwyaeth yr estron. Ond nid felly ceid yr Ellmyniaid. Cawsom ein hunain ar lan

AFON Y RHINE.

O Basle hyd Constance, rhyw 80 milldir, y mae rheilffordd yn rhedeg yn gyfochrog â'r afon; ar y ddau du y gwelwn fynyddoedd uchel a rhamantus. Rhwng Neuhausen a Shaffhausen yr oedd disgyniadau dyfroedd yr afon yn rhaiadru yn ddychrynllyd. Fel yr oeddem yn dynesu i Constance, yr oedd y gwastadeddau yn ymbrydferthu llawer. Yn

CONSTANCE

cynhyrfid ni wrth edrych ar yr adeilad lle y cynnaliwyd cyfarfod mawr 1414, ac y condemniwyd John Huss a Jerome o Prague i gael eu llosgi, dan y ddedfryd eu bod yn hereticiaid. Y mae mantell John Huss, yn yr hon yr aeth efe at y tanllwyth i'w gweled yno yn awr. Oddiyno i Romanshord, ac yn groes o Lyn Constance i Linden, cylchynid ni gan fynyddoedd y Tyrol. Cawsom ystorm greulon o wynt a gwlaw tra ar y llyn. Yr oeddem mewn cwchyn agerdd bychan hynod o angelfydd a syml. O'r diwedd, cawsom ein hunain yn Augsburg, hen ddinas enwog Luther, o'r hyn leiaf lle y cynlluniwyd ei Gyffes Ffydd. Gwelsom yr ystafell lle y cyfansoddwyd hi, ac y mae yn santaidd ac yn gysegredig iawn gan y Lutheriaid hyd y dydd hwn. Y mae llawer o bethau cywrain a dyddorol i'w weled o gwmpas yno. Aethom rhag ein blaen a chyrhaeddasom Munich, prif ddinas Bavaria. Yr oedd y cholera yno ar y pryd, a braw enbyd wedi meddianu y dinaswyr. Cymmerasom amser a digon o ymddiried yn nghadwraeth ein bywyd i edrych tipyn i hynodion y lle. Gwelsom y palas breninol, yr eglwysi ardderchog, a'r orielau mwyaf celfyddgar yn Ewrop. Aethom rhag ein blaen heibio i Saltsburg a Vienna. Yr oeddem lawer o'r ffordd yn cyd-dramwy ag afon fawr y Danube. Yr oedd y

tywydd yn wresog iawn yn y dyffrynoedd, sef dechreu mis Medi. Yr oedd Alpiau y Tyrol yn disgwyl yn odidog farddonol; gwisgid hwy a rhew, ac eira, ac â'r *glaciers* tragwyddol.

Dyma ni yn awr yn Vienna, yn gweled ffair y byd. Yn cerdded yn ol a blaen am ddiwrnodau o ddosparth i ddosparth, ac yn fynych heb wybod yn iawn pa un ai yn y corph neu allan o'r corph oeddem. Yr oedd y *cholera* yn ddrwg yn y dref ar y pryd, o thua hanner cant yn meirw yn ddyddiol. Dywedai rhai fod y *cholera* wedi effeithio ar y dwfr; yr oeddent felly yn cael esgus dros yfed diodydd meddwol. Ni fyddai ond rhyfyg ynwyf geisio rhoddi desgrifiad o'r holl bethau ardderchog a welsom yn ffair fawr y byd! Gallwn ddweyd mai yr awr fwyaf hapus o'r holl oriau a dreuliasom yn Vienna ydoedd yr awr yr aethom i'r orsaf i gymmeryd y gledrffordd i Trieste yn Itali; oblegyd yr oeddem wedi blino edrych i ardderchogrwydd y golygfeydd. Yr oedd ein holl rym corphorol a meddyliol fel pe wedi myned yn wendid ynom. Dyna ni ar y daith o Vienna i Trieste. Mae'r olygfa yn hardd ardderchog. Cyfyd y gledrffordd yn raddol, gan ymdroelli, nes cyrhaedd coryn Mynydd Somering. Yr oeddem y pryd hwnw ryw bum' mil o drodfeddi yn uwch ná'r mor, a thyna ni yn gwynebu ar Itali briodol, etto dan lywodraeth Awstria. Hen dref wedi cael ei hadeiladu gan y Rhufeiniaid, ydyw Trieste. Peth mwyaf neillduol yno ydyw cyd-gyfarfyddiad cenedloedd. Gwelir yno ardeb o wahanol genedloedd y Cyfandir. Wrth ddisgyn i lawr Mynydd Somering, gwelem y graig fynor yn brigo allan; meini sydd yn costio llawer iawn yn Nghymru a Lloegr, ond yn rhad iawn yno; oblegyd y maent y mwyaf lluosog ar, ac yn y mynydd. O'r diwedd, cyrhaeddasom i Venice. Pwy na wyr am y ddinas hon? Pwy nad yw wedi clywed am 'Bont yr ocheneidiau,' a thy Shylock yr Iuddew, a llawer o hynodion hanesyddol ereill. Dywedir fod yn y dref hon tua 200,000 o drigolion, heb un ceffyl yn yr holl ddinas. Y mae pob ystryd yn gamlas, a phob cerbyd yn gondola (cwch). Saif y dref ar tua 70 o ynysoedd y mor Adriaidd. Eu hamcan, gellid meddwl, pan yn adeiladu dinas felly yn y mor oedd, diogelwch. Bu Venice am gannoedd o flynyddau yn Werinlywodraeth, ac yn feistres ar y parthau cymmydogaethol hyny o'r byd. Pan ddisgynasom yno yr oedd genym filldir a hanner o'r Station i'r gwesty. Yr oeddym yn myned mewn cwch yn gyssurus neillduol. Peth go ddigrif i ni ydoeddd gweled arferiadau tramwyol y lle—gweled fod yn rhaid cymmeryd dwfr cyn myned i un man. Y mae rhyw lwybrau culion rhwng yr adeiladau weithiau, a chulion iawn ydynt. Y mae y tai yn ymddangos yn hynod o uchel ar y twmpathau creigiau yno, a'r mor yn mawreddog daflu ei donau trochionog o'u cwmpas. Lle rhyfedd ydyw ystafell carcharorion y dyddiau gynt. Yr oeddym yn myned i lawr i'r dyfnderoedd obry; y maent yn is ná gwyneb y mor. Yno y cedwid y carcharorion hyd y prawf. Cydrhwng yr ystafelloedd a'r llysdy, y mae pont yr ocheneidiau, enw mae'n debyg a roddwyd arni oddiar syniad o deimladau y carcharorion pan yn myned o'r carchar i'r llys. Lle isel, tywyll, llaith ac annymunol iawn i ni ydoedd ystafell

y carcharorion; o'r braidd yr oeddwn yn gallu anadlu wrth feddwl am dynged y bobl yno, yn nghyd a chyfyngder yr ystafelloedd. Yma y dywedir i St. Marc, yr Efengylydd, gael ei gladdu. Claddwyd y Sant yn gyntaf yn Alexandria, yn yr Aipht. Ond, cododd awydd angerddol ar y Veniciaid am gael ei gorph er rhoddi bri ar eu dinas. Ymgymmerodd rhai o forwyr gwrol Venice a'r anturiaeth o fyned ar y daith forawl i'r Aipht, a buont lwyddianus i ddwyn corph yr hen Sant, a daethant ag ef yn ddiogel i Venice, lle y codwyd eglwys fawr ardderchog fel cof-adail o'r weithred hapus. Beth feddylech am foes-gyfarchiad fel yna i'r fath weithred.

Wel, dyna ni yn gadael dinas y dwfr—ei hynodion a'i choel-grefyddoldeb, ac yn gwynebu ar ddinas y dinasoedd—Rhufain. Yr oeddym yn mynod drwy Padua, Bologna a Florence. Yr oedd y wlad o'n cwmpas yn ymddangos yn ardderchog, yn fwy tebyg i erddi nag i ffermydd. Y mae pob troedfedd o'r tir yn cael ei wrteithio i'r man uchaf. Codi ffrwythau ydyw y prif alwedigaeth. Y mae yr hen drefydd hynodol hyn yn hynod fel rhodfeydd y bu Galileo ar hyd-ddynt. Y mae enwau dynion weithiau yn rhoddi bri mawr ar bentrefydd a dinasoedd. Rhufain, gorseddfa y Pab, a brenines y dinasoedd, mewn mawredd a gogoniant; saif yn uwch nâ holl ddinasoedd Itali. Y mae cyfrolau o hanesyddiaeth yn perthyn iddi. Y mae yn rhyfedd genym fod can lleied o'r Cymry a ymwelant a Ffrainc a Germani yn talu ymweliad a Rhufain; ystyriwyf fod mwy o ryfeddodau anianyddol, celfyddydol ac hanesyddol, o Rhufain i Naples, nag sydd mewn un man arall ar y Cyfandir. O gylch yno y mae yr hen fynyddoedd oesol—Vesuvius, Stromboli, ac Etna. Y mae eu hanes wedi ei ysgrifenu mewn cyfrolau o dân; a Pompeii ac Herculeum yn dystiolaeth o eithafoedd eu galanastra.

(*I'w barhau.*)

MARWOLAETH UN O WRONIAID WATERLOO.

Mae un ar ol y llall o ddewrion Rhyfel yr Orynys a gwroniaid Waterloo yn cael eu symmud ymaith gan law amser nad yw yn pleidio nac yn arbed neb. Mae un o honynt wedi bod yn byw bron wrth ein drysau am yr hanner canrif diweddaf, heb yn wybod i lawer feallai, gan fod pwys blynyddau hirion wedi gwneyd eu heffaith arno, fel nad oedd yn alluog yn ddiweddar i wneyd ei ymddangosiad yn yr heolydd fel cynt. Adnabyddid y gwron a gyfeiriwn ato, William Jones, gan hen drigolion Aberdar, fel dyn twymgalon, gonest a didwyll. Bu farw Chwefror 12, 1876, a dydd Mawrth canlynol cyflwynwyd ei weddillion i'w gorphwysle ddiweddaf, yn y Cemetery, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. W. James, gweinidog yr Hen-dy-cwrdd. Ganwyd William Jones yn y flwyddyn 1791, felly yr oedd yn 85 oed,

Cyn myned i mewn yn filwr rheolaidd yn y fyddin, gwasanaethodd gyda'r *Militia* cartrefol am ddau dymhor o fis yr un. Ymrestrodd gyda'r *First Grenadier Guards* yn 1810, lle parhaodd hyd 1817, o dan y Cadfridog Maitland. Bu trwy yr oll o ryfel yr Orynys (Yspaen a Portugal), a chafodd ei glwyfo yn y diwedd ar faes Waterloo. Yr oedd ganddo frawd henach, John Davies, yn y fyddin, ond nis cyfarfyddodd ag ef yno. Yr oedd yn rhingyll (*sergeant*) yn y 23*rd Royal Welsh Fusiliers*, a lladdwyd ef yn ngwarchaead Pampeluna. Yr oedd yn bleser clywed W. Jones, yn rhoddi hanes, mewn iaith ag oedd bron yn hyawdl, y golygfeydd cyffrous ag oedd efe a'i gyd-filwyr wedi bod yn dystion o honynt, y brwydrau oeddent wedi cymmeryd rhan ynddynt, a'r brwdfrydedd gyda'r hwn yr ymladdent i amddiffyn eu haelwydydd a'u cartrefleoedd. Teimlai hyfrydwch neillduol wrth adrodd hanes yr enciliad o Madrid. Dywedai i'r fyddin ddyoddef mwy yn yr enciliad dinystriol hwnw nag yn un lle arall. Ni oddefid iddynt i gysgu ond o 12 o'r gloch i 2, a phan ddaethant i gael triniaeth briodol yr oeddynt yn meirw yn lluoedd. Yr oeddynt yn aml yn gorfod cuddio â phridd 14 ar y tro. Claddwyd yn nghylch pedwar cant mewn un twyn bychan. Yr oedd dyoddefiadau a dinystr bywyd y milwyr, yn fwy nag hyd y nod ar faes y gwaed. Yr oedd ei adgofion hefyd yn naturiol yn myned yn ol i Quatre Bras, lle y syrthiodd y dewr Duc o Brunswick, a'r ymdrech enwog yn y maes gwenith. Cafodd Mr. Jones ei glwyfo yn gynnar yn y dydd ar faes Waterloo, a bu yn gorwedd am ddau ddiwrnod ar faes y frwydr cyn i neb ddyfod i weini arno. Yr oedd y clwyf yn ei ben, a gosodwyd *plate* arian arno, yr hwn oedd yn aros yno hyd y diwedd. Yn fuan ar ol ei adferiad ymadawodd a'r fyddin, ond ni roddwyd *pension* iddo hyd nes y daeth yn Arglwydd Aberdar presenol, ar farwolaeth Syr John Guest, yr aelod seneddol dros fwrdeisdref Merthyr. Dygwyd ei achos o flaen Mr. Bruce, gan y Parch. J. Jones, diweddar weinidog yr Hen-dy-cwrdd, ac mewn canlyniad i gymmeradwyaeth y boneddwr hwnw, derbyniodd Mr. Jones hanner tâl (*half pay*), yr hwn a wnaed yn llawn dâl er ys rhyw flwyddyn yn ol. Yn ystod y rhan fwyaf o'i fywyd, yr oedd yn gweithio o dan Gwmpeini Haiarn Abernant. Ymunodd a Chynnulleidfa yr Hen-dy-cwrdd er ys rhagor nâ deugain mlynedd yn ol, a bu yn addolwr cysson a didwyll yno nes yr ataliwyd ef gan afiechyd a gwendidau henaint. Bydd yn rhaid i'r olaf o'i gyd-filwyr ei ganlyn i'w cartref diweddaf yn fuan. Fe ddichon iddynt fyned a chael eu anghofio, y rhan fwyaf o honynt gan ddynion, ond mae eu gweithredoedd dewr a gogoneddus wedi eu hysgrifenu yn annileadwy mewn hanes, ac ar lechau calonau gwir garwyr eu gwlad am byth.

O'R "ABERDARE TIMES."

OFFEIRIAD ieuanc, lled hunanol, a ddywedodd unwaith: "Y bore yma mi a bregethais i gynnulleidfa o asynod." "Yr oeddwn yn meddwl am hyny," meddai boneddiges yn ateb, "pan oeddych yn eu galw yn 'anwyl gariadus frodyr.'"

Gohebiaeth.

YR YSGOL SUL.

Mr. Gol.,—Yr wyf wedi dysgwyl llawer dro ar ol tro am ychydig sylwadau ar yr Ysgol Sabbothol yn yr YMOFYNYDD, ond i ddim dyben. Mae ysgrifenwyr galluog yn anfon y naill beth ar ol y llall i mewn, etto wedi gadael y pwnc sydd genyf dan sylw yn bresenol heb ei gyffwrdd. Mae amryw yn yr ysgol yr wyf fi yn ei mynychu yn fwy galluog nâ mi i draethu eu meddyliau, ond nid ydynt yn hoffi; a chan fy mod yn teimlo cymmaint o ddyddordeb yn y sefydliad, nis gallaf hebgor yn hwy heb anfon ychydig eiriau.

Mewn perthynas i'r Ysgol Sul, dywedaf yn ddiofn nad oes un peth yn fwy bendithiol mewn cyssylltiad â Christionogaeth. Mae ei chynyrchion yn mhob oes wedi profi hyny yn amlwg, oblegyd y mae wedi dwyn i fyny ddynion enwog. Mae lluoedd yn mhob parth o'r byd nad allant fyned i'r ysgol ddyddiol, gan fod amgylchiadau eu rhieni yn pallu, &c.; etto mae'r Sabboth gan bawb yn ddiwahan, gan hyny nid oes un achos gwirioneddol dros beidio mynychu yr Ysgol Sul.

Cewch glywed ambell i fab neu ferch ieuanc yn dweyd, "Mi awn inau i'r Ysgol Sul, ond nis gallaf ddarllen, a thrwy hyny mae gormod o gywilydd arnaf." Dymunaf ofyn i'r cyfryw, Pa beth ydyw ysgol ond i ddysgu? Deuwch, a chewch wersi gan athrawon hoff, yr hyn a fydd yn gyssur nid bychan i chwi yn ol llaw. Mae darllen wedi rhoddi adloniant i'r meddwl yn mhob amgylchiad. Hefyd, nid oes achos i neb ddweyd ei fod yn rhy hen; y peth sydd arnom oll eisiau ydyw gwir ymdrech i gyrhaedd ein dymuniadau; a chydag ychydig o gynnorthwy ein cyd-ddynion, byddwn yn sicr o fod yn ennillwyr.

Bydded i bawb o honoch roddi o'r neilldu bob esgusodion, a rhoddi eich presenoldeb yn yr ysgol am dro neu ddau, ac yr wyf yn meddwl yn gadarn na fydd ynoch y duedd leiaf i ymadael â hi. Mae yr Ysgrythyr yn dweyd am i ni "brofi pob peth, a dal yr hyn sydd dda."

Mae llawer o rieni yn feius iawn, am nad ydynt yn myned i'r Ysgol Sul, nac yn rhoddi un anogaeth i'w plant fyned ychwaith. Nid oes esampl na gorchymyn a roddir gan neb i blentyn a gaiff gymmaint o ddylanwad arno ag eiddo y tad a'r fam. Os gofynwch i rai paham nad ydynt yn rhoddi eu gwasanaeth, yr ateb a gewch yw, "Ewch chwi i'r ysgol, mae yn ddigon i ni fyned i'r cwrdd." Nid oes dim i'w ddweyd yn erbyn myned unwaith neu ddwy bob Sabboth i wrandaw pregeth; ond cofier mai gwrandaw yn unig a wnawn, a gallwn wneuthur hyny tra byddom byw, heb fod o un lleshad i arall. Arall a ddywed, "Yr wyf fi yn gallu darllen yr hyn sydd yn augenrheidiol gartref, a beth sydd yn eisiau yn rhagor?" Tyred, ynte, i ddysgu arall, yn dâl i'r hwn a'th ddysgodd di. Mae galluoedd rhai yn fawr, ond nid oes neb na all wneuthur ychydig ddaioni os bydd tuedd ynddo at hyny.

Mor brydferth yw edrych ambell foreu Sabboth ar yr ysgol wedi ymgynuull, pan y bydd pob un wrth ei waith priodol ei hun! Ceir gweled yr hen wr a'r pren almon wedi blodeuo ar ei ben, yn ymdrechu gosod ei feddwl allan i un ychydig yn ieuangach; arall yn dysgu darllen, arall yn sillebu; tra mae'r plentyn â'i holl ymgais yn gwahaniaethu y llythyrenau, a mawr mor ddedwydd mae yn teimlo ar ol myned trwy ei orchwyl bychan. Rhywbeth tebyg i hynyna yw rhan o'r gwaith sydd yn ngwinllan yr Arglwydd.

Mae yr Undodiaid fel enwad yn llafurio llai nag enwadau ereill tuag at gynnal Ysgolion Sabbothol yn mhob man, canys mae llawer o gapeli genym yn Lloegr a Chymru heb yr un ysgol o gwbl, ac mae hyn yn ddiddadl yn achos neilduol fod ein cynnulleidfaoedd mor fychain, oblegyd mae plant fel rheol yn myned i Ysgolion Sabbothol, a lle mae y plentyn yn myned yn moreu ei oes, mae ganddo dueddiad cryf at y fan a'r enwad trwy ei oes. Am hyny bydded i ni weithio o ddifrif yn y dyfodol. "Gwell hwyr na hwyrach." Nid âf i ymhelaethu y tro hwn, gan fawr obeithio y daw fy nymuniad i ben, sef gweled a chlywed bod ein Hysgolion Sul yn addurno y rhanau hyny o'r byd ag y mae genym achosion crefyddol ynddynt yn bresenol. Penderfyniad sydd eisiau, oblegyd mae Duw o blaid pob achos da; ac os bydd Ef o'n tu, pwy a ddichon fod yn ein herbyn.

Lampeter. J. L. R.

Hanes.

GWYL DE A CHYFLWYNIAD TYSTEB.

Nos Lun, Rhagfyr 27ain, 1875, cafodd plant Ysgol Sul Cwmbach eu gwyl dê flynyddol yn yr ysgoldy, yr hon a fwynhawyd yn helaeth gan bawb a gyfranogodd o honi. Wedi symmud y llieiniau oddiar y byrddau, rhanwyd cynnwysiad y "Christmas Tree," yr hon oedd wedi ei gorlenwi â gwahanol fathau o *doys* i foddio'r plant, a llawer o bethau defnyddiol ereill, yn y rhai y cawsant oll eu boddloni. Y peth nesaf oedd cyflwyno Tysteb i Mr. Joseph Perkins, yr hwn sydd wedi bod yn chwareu yr *harmonium* yn y capel, er ys dros dair blynedd o amser. Barnodd rhai o'r gynnulleidfa y dylid dangos rhyw arwydd o'u parch a'u diolchgarwch iddo am ei wasanaeth, yr hyn a ddangoswyd drwy roddi iddo gyfrol o waith Brinley Richards, dan yr enw "Recollections of Wales," yn nghyd â phwrs yn cynnwys dros chwech punt. Cyflwynodd Mrs. Lloyd y Dysteb iddo, a theimlai Mr. Perkins yn ddiolchgar iawn i'r gynnulleidfa am eu caredigrwydd tuag ato, ac addawai i wneyd ei oreu etto yn ein plith yn y dyfodol. Ar ol hyny cafwyd cwrdd adrodd a chanu da rhagorol dan lywyddiaeth y Parch. E. W. Lloyd. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parch. J. J. George, Aberdar, ac amryw ereill, a therfynwyd drwy dalu diolchgarwch i Mr. a Mrs. Lloyd am y tê a'r deisen, a'u hymdrechion egniol i gynnyddu yr Ysgol Sabbothol yn y lle.—*Gwilym Dewi.*

Priodas.

Rhagfyr 25, 1875, yn yr Hen-dŷ-cwrdd, Heol y Felin, Aberdar, gan y Parch. W. James, B.A., yn mhresenoldeb y cofrestryddd, Mr. John Jones, Tŷ'ncelyn, Llanwnen, â Miss Gwenllian Llewellyn, Pantysgawen, Hirwaen.

Aeth John a'i galon yn gur—a chwynodd
Am 'chwaneg o gyssur;
Diau o'u bodd ca'dd dau bur,
Eu dala gan 'r un dolur.

Einioes hir o wir fwyniant,—ddilyno'r
Ddau lanwedd, heb siomiant;
Llawer o'i phleser a phlant
I Gweni, yn ogoniant.

Gwarnant Williams.

Marwgofion.

Hydref 30, yn 10, Water Street, Llanelli, ar ol byr gystudd—ond chwerw iawn, o'r dwymyn fraenol, yn 51 oed, Mr. David Thomas, Dilledydd, gynt o Pantydefaid, Llandyssul, Ceredigion. Yr oedd y trengedig wedi symmud i Lanelli er ys oddeutu tair blynedd yn ol. Pan glywsom am ei afiechyd annysgwyliadwy, ychydig feddyliem y pryd hyny ei fod ar gael ei symmud ymaith o'n plith mor fuan, ond felly y rhyngodd bodd i Ragluniaeth ddwyfol. Cymmerwyd ein cyfaill ymaith—heb ond ychydig rybudd—yn nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb; er galar a cholled fawr i'w weddw a'i blant, o golli priod tyner a thad tirion a gofalus. Dechreuodd ein cyfaill ymadawedig ei yrfa grefyddol yn mhlith y brodyr Trindodaidd, ond oherwydd chwithigrwydd yr athrawiaethau hyny unodd â'r Undodiaid yn Pantydefaid, lle y bu yn aelod ac yn weithiwr ffyddlawn hyd ei ymadawiad o'r lle. Bu hefyd yn un o sylfaenwyr cyntaf yr Ysgol Sabbothol yno, a chafodd fyw i weled ei lafur yn cael ei goroni â llwyddiant nid bychan. Hefyd, y mae genym seiliau i gredu, oddiwrth ysgrifeniadau y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn yr *Ymofynydd* am fis Ionawr, er bod ein cyfaill wedi symmud i Lanelli, i blith y penboethiaid crefyddol,

i'r man mwyaf rhagfarnllyd mewn hanesyddiaeth i'r blaid Undodaidd, na fu hyny yn achos iddo wadu ei egwyddorion crefyddol. Perchid Mr. Thomas yn fawr gan y sawl a'i hadwaenai yn dda, fel Cristion syml a chydwybodol, cymmydog tawel a chymwynasgar, cyfaill serchog, a chydweithiwr selog a ffyddlawn. Ni welwyd ei le un amser yn wag yn y capel oherwydd cael ei dramgwyddo gan un o'i gyd-aelodau neu'r gweinidog; un addfwyn ac hawdd ei drin mewn cymdeithas oedd ein cyfaill ymadawedig. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn Cemetery tref Llanelli. Bydded i'w berthynasau, a phawb o honom fel ein gilydd, ddweyd o'r galon "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg," a diolch yn wastadol am addewid yr Iesu; "Byw wyf fi a byw fyddwch chwithau hefyd," fel y canodd yr hen fardd Iolo :—

"Er dodi'n brawd yn mhwll y bedd,
Adgyfyd etto'n fyw,
I fyd y saint—i wynfyd hedd,
I ryddid meibion Duw."

—*Iolo Glan Cletwr.*

Rhagfyr 28, wedi newydd ddechreu ar ei 90 mlwydd, Esther Thomas, mwy adnabyddus fel "Esther y *post*," yn Mhwllgravel, wrth gapel Pantydefaid. Buasai yn cario'r *post* o Landyssul i Lwynrhydowen am lawer o flynyddoedd. Cawsai ei breintio â chyfansoddiad corff a meddwl cryfach na'r cyffredin. Nid oedd braidd ddiwrnod, hyd ei hafiechyd diweddaf, nad elai unwaith bob dydd i gopa y bryn uchel ac amlwg a elwir Pencoedyfoel, yr hwn a rydd olwg ardderchog o ddyffryn y Teifi a mân ddyffrynoedd ereill. Parhaodd ei blas at ddarllen hyd y diwedd, a darllenwraig graffus a deallus ydoedd. Yr oedd yn hynod hyddysg yn yr Hen Destament a *Josephus*, ac nid oedd braidd i lyfr yn llyfrgell y Llwyn nad oedd hi wedi ei ddarllen. Claddwyd hi yn mynwent Carmel, capel yr Independiaid, pan, yn absenoldeb Mr. Thomas y Llwyn oherwydd afiechyd, y gweinyddwyd gan y Parch. T. P. Phillips, o'r Wessyn. I'r henaf fel yr ie'ngaf y bedd yw diwedd y daith.

Ionawr 8, yn 19 mlwydd oed, Hannah Jones, Melin Castellhywel, plwyf Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Pantydefaid. Dyoddefodd gystudd maith yn amyneddgar a gobeithiol. Pregethodd y Parch. T. T. ar ddydd ei chladdedigaeth.

Ionawr 9, ar ol hir gystudd, Thomas Thomas, dilledydd, mab David a Martha Thomas, Tanycoed, Llanfair, Llandyssul, yn 17 mlwydd oed. O fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth, gorchymynodd pa le a pha fodd i'w gladdu. Ymgasglodd tyrfa fawr i hebrwng ei rau farwol i fynwent Carmel, capel yr Annibynwyr, lle y pregethodd y Parch. T. P. Phillips, Horeb, oddiar 1 Cron. xxviii. 9.—*T. T. Gwenog.*

Ionawr 16, yn 71 oed, Rachel Jones, Blaenwaun, Llanwnen. Claddwyd hi yn Capelygroes y dydd Mercher canlynol. Pregethodd Mr. T. Thomas ar yr achlysur. Yr oedd i'r ymadawedig air da trwy yr holl gymmydogaeth.

Ionawr 22, yn 72 oed, wedi hir nychdod, Mrs. Mary Morgans, Cross Keys, Cefncoedycymmer. Oherwydd ei bod yn ddynes mor dawel, caredig, a da ei dymuniadau, perchid hi gan bawb a'i hadwaenai. Y Mercher canlynol, hebryngwyd ei gweddillion marwol i'r bedd yn mynwent yr Hen Dŷ-cwrdd, lle y bu yn aelod hardd am lawer o flynyddau, gan dorf luosog iawn o berthynasau ac ereill. Gweinyddwyd yn ei hangladd gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach.

Chwefror 3, yn 32 oed, David Evans, saer, Rumni, o'r darfodedigaeth, gan adael gweddw a thair o ferched bychain, o'r rhai nid yw yr henaf ond pum' mlwydd oed, i alaru eu colled. Y teimlad o'r cariad Anfeidrol fyddo yn gymhorth iddynt i sefyll yn ngwyneb y brofedigaeth chwerw, ac yn amddiffynfa iddynt etto yn eu hamddifadrwydd. Dydd Llun canlynol, rhoddwyd ei weddillion marwol i orphwys yn mynwent Eglwys Rumni, a gweinyddwyd gan y Parchedig Mr. Evans, y ficer. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn tawel, ac iddo barch mawr gan bawb o'i gydweithwyr. Yr oedd yn Undodwr selog, ac yn ddarllenwr cysson o'r *Ymofynydd* er ys blynyddoedd. Hoffai ddarllen yn fawr, ac ymafaelai gydag awch yn mhob llyfr da ag y deuai o hyd iddo. Ganwyd ef yn sir Aberteifi, ac yr oedd yn wyr i'r diweddar Job Enoch, Hen Ardd Ystrad, ger Rhydygwin. Bu farw fel y bu fyw, yn dawel ac yn heddychol.—*D. E., Rumni.*

Chwef. 7, yn 73 oed, ar ol hir a dolurus gystudd, David Thomas, o Nantygwyddau, Llandyssul. Yr oedd iddo air da fel cymmydog di-ymryson a charedig, parod i helpu'r gwan ac i gyfryngu rhwng pleidiau. Yr oedd yn berchen ar ddawn siarad hynod o naturiol, fel y gallai draethu ei feddwl yn ddeheuig mewn cyrddau cyhoeddus. Claddwyd ef yn mynwent Pantydefaid, pryd y gweinyddodd Mr. Thomas,

o'r Llwyn. Boed nerth i'w briod brudd a'i blant galarus i ymdawelu yn eu hamddifadrwydd.

Chwefror 13, yn 86 oed, wedi maith gystudd, Mary, gweddw y diweddar Mr. Phillemon Williams, Caeau Caradog, ger y Wig, Penybontarogwy. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r menywod mwyaf caredig ag y daethum i gyffyrddiad erioed. Meddyliai lawer mwy am gyssur ereill na'r eiddo ei hunan. Bu yn aelod ffyddlon yn yr Hen Dŷ-cwrdd am flynyddau lawer, ac ni theimlai neb yn fwy gwresog dros yr achos na hi. Y Mercher canlynol, claddwyd hi yn mynwent y capel a nodwyd, pryd y gwasanaethwyd i dorf luosog iawn ar yr achlysur gan ei hen weinidog, y Parch. Titus Lloyd.

Chwefror 16, yn 6 oed, Margaret, merch John ac Anne Morgan, Bell Court, Trecynon, Aberdar. Dydd Gwener canlynol, claddwyd hi yn y Cemetery, pryd y gweinyddwyd—yn absenoldeb Mr. James, Hen-Dŷ-cwrdd, oherwydd afiechyd,—gan y Parch. J. Williams, Blaengwrach.

Barddoniaeth.

MYFYRDOD RHIENI UWCH BEDD EU PLENTYN.

Fan hon mae'n hanwyl blentyn ffraeth,
Mewn bedd, dan ddwylaw angeu'n gaeth,
Ond nis ca'dd angeu ganiatad
'Gaethiwo dagrau mam a thad.

Os na chawn heddyw wel'd ei wedd
Cawn blanu blodau ar ei fedd,
Ac iro rhai'n yn ddinacâd
A dagrau hiraeth mam a thad.

Er mai lle trist yw'r fynwent fud—
Lle cysg perth'nasau pawb o'r byd,
Mae awr fan hon yn esmwythad
I feddwl drylliog mam a thad.

Pa faint o ddagrau, fonwent brudd,
Dderbyniaist ti o ddydd i ddydd?
Cei attynt etto hir barhad,
O ddagrau hiraeth mam a thad.

Os marw a thywyll yw y bedd,
A'r marw ynddo'n wael ei wedd,
I waelod bedd cyrhaedda mâd
Feddyliau pruddaidd mam a thad.

Agorodd hardd Efengyl hedd,
Ag allwedd gobaith ddorau'r bedd;
Dangosodd hefyd gyrau'r wlad
Lle sychir dagrau mam a thad.

G. Gwenog.

GWEDDI AM GYNNORTHWY YN ANGAU.

Pan bwy'n dysgwyl yn grynedig
Ar derfynau tir y byw,
Am gael croesi'r llif chwyddedig,
Wrth d'orchymyn Di, fy Nuw.

Pan b'or golygfeydd anwylaf
Ar ddiflanu oll o'r bron,
A phan b'or och'neidiau olaf
Ar fin rhwygo'r galon hon.

Di, ffynnonell pob llawenydd,
Ffynnon cariad, ffynnon hedd!
O gwasgara'r gwyll annedwydd
Sy'n amgylchu porth y bedd.

Rho dy dyner fraich am danaf,
Pan gogwyddo i lawr fy mben;
Rho belydrau'th wawl dysgleiriaf
Ar fy ffordd i'r nefoedd wen.

W. B. Collyer.

Y BABAN YN HUNO.

Y baban a wylodd;
A'i fam a'i cymmerodd i fyny i'w breichiau,
Esmwythodd ei ddolur, tawelodd ei ofnau,
A'r baban a hunodd.

Ac etto mae'n wylo;
O freichiau y fam y mae Duw'n ei gymmeryd,
Yn mhell oddiwrth drallod y ddaear a'i gofid,
A'r baban sy'n huno. H——s.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.